Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION

GORFFENNAF AC AWST 2010

DYDDIAD	Nos Fercher, 14eg Gorffennaf
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Neuadd Llanwnda
AELODAU'N BRESENNOL	Elin Evans (Cad), Jason Hunt, Meurig Williams, Huw Williams, Gwilym Vaughan Thomas, Tom Ellis, Gwilym L.Williams
HEFYD YN BRESENNOL	Bethan Williams, clerc

1. **Croeso**

2. **Ymddiheuriadau**
   Nerys Evans, Aeron M.Jones

3. **Datgan Buddiant**

4. **Cadarnhau cofnodion**
   Cadarnhawyd cofnodion mis Mehefin fel rhai cywir.
5. **Materion i'w trafod:**
   a. Yn y cyfarfod diwethaf, gofynnwyd pam fod pedair lori bin yn Rhosgadfan rhyw fore. Nodwyd mai dyma ydy'r drefn arferol – dwy fach a dwy fawr bob wythnos.
   b. Nodwyd fod twll yn y ffordd ger y gwter wrth ymyl Tai Bro Wyled a Tai Bodawen. Clerc i gysylltu a'r cyngor cyn iddo waethygu.
   c. Parc Chwarae Rhostryfan – adroddodd y clerc fod rhieni, athrawon a phlant y pentref wedi dosbarthu llwyth o risgl coed ar lawr y parc, a'i fod bellach yn ddiogel i'r plant chwarae yno.
   d. Nodwyd fod cryn bryder ynglyn â safon torri gwair ger y meinciau yn Saron ac yn Rhos Isaf – angen cadw golwg ar y sefyllfa.
   e. Cyngor Gwynedd bellach wedi torri'r gwrychoedd yn y pentrefi. Nodwyd fodd bynnag nad yw'r gwaith o'r safon gorau.

6. **Derbyn Adroddiadau:**.
   Cyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor – 21.06.10

7. **Is-bwyllgorau:**
   Cyfarfu Is-bwyllgor Lein Bryngwyn yn Steshion Rhostryfan nos Fawrth, 22ain Mehefin i sefydlu beth yn union sydd angen ei wneud a cheisio cael prisio'r prosiect yn ei gyfanrwydd. Clerc wedi gofyn am bris gan 3 contractiwr: Michael Edwards; Brian a Dylan Humphreys; Gwilym L.Williams.
   Cafwyd ebost gan Cara Owen yn cadarnhau nad oes angen cais cynllunio i wneud y gwaith dan sylw.

8. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	18,994.27
Cyfri Siec:	360.07
CYFANSWM	19,354.34

Taliadau:

Cyflog/costau clerc Gorffennaf ac Awst	1084.10
Wyn Williams	870.00
Siôn Owen	300.00
Glasfryn – rhisgl coed	358.37

9. **Materion Cynllunio**

C10A/0280/24/R4
Hysbysfwrdd, Rhostryfan – dim angen sylw gan yr aelodau ond i nodi fod cefnogaeth unfrydol!
Eisoes wedi'u caniatau:
Aber Alaw, Rhosgadfan – newid defnydd
Penlon, Rhosgadfan – estyniad
Ty Crwn, Rhosgadfan – addasiadau
Rhwngddwyryd, Rhos Isaf – estyniad
1 Bryn Eithin, Rhostryfan – estyniad
Tir ger Gwylfa – sied amaethyddol

Gohebiaeth:

a. Gorchymyn cau ffordd – gridiau gwartheg ger Ty'n Mynydd, Rhosgadfan a Bryn Helen, Capel Bryn – gorchymyn yn dod i rym ar yr 19eg Gorffennaf.
b. Shelter - cais am help ariannol - i'w drafod ym mis Chwefror yn ystod cyfarfod nawdd.
c. Cynulliad – papur ymgynghori ynglyn â Is-ddeddfau Awdurdodau Lleol
d. Tai Eryri – cyfarfod cyffredinol blynyddol
e. Ombwdsman Cymru – adroddiad blynyddol
f. Un Llais Cymru – rhaglen hyfforddiant genedlaethol
g. Manylion am lyfr "The Songbird i'r Singing"
h. Pwyllgor Cae Chwarae Rhosgadfan – llythyr diolch am y nawdd
i. Cylchgronnau

10 **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf:**

a. Cafwyd cwynion ynglyn ag Alun, Bryn Bach yn cario gwastraff yn ôl o Benygroes i Bryn Bach yn oriau mân y bore ac ati. Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd i sefydlu beth ellir ei wneud.
b. HW – ceffylau yn baeddu'r lonydd.
c. GVT – arwyddion LED angen sylw.
d. GVT – draen ger Muriau, dwr bellach yn dod drwy'r wal yn hytrach nag i mewn i'r gwter.
e. TE- arwydd llwybrau cyhoeddus
f. JH – arwydd Rhostryfan
GLW – gor-dyfiant coed ar Lôn Cae Garw, Rhos Isaf

NODER: NID OES CYFARFOD YN YSTOD MIS AWST.
DYDDIAD CYFARFOD NESAF – 15fed MEDI